# Ydych chi'n cadw moch, hyd yn oed fel anifeiliaid anwes?




## Helpwch i leihau'r risg y bydd clwy Affricanaidd y moch yn cyrraedd moch yn y DU

## Wyddech chi?


Mae clwy Affricanaidd y moch yn bresennol mewn nifer o wledydd yn Ewrop yn ogystal ag Asia ac Affrica. Mae wedi achosi marwolaeth o filiynau o foch ar draws y byd. Mae’r clefyd yn heintus iawn ac os bydd yn cyrraedd y DU gall dinistrio’r diwydiant moch masnachol ag effeithio ar geidwaid tyddyn a moch anwes.

**Mae'n anghyfreithlon i fwydo moch gyda gwastraff arlwyo neu sbarion o'r gegin oherwydd gall y rhain drosglwyddo clwy Affricanaidd y moch ynghyd â chlefydau difrifol eraill megis clwy'r traed a'r genau a chlwy clasurol y moch.**

## Rhowch y bwydydd cywir i'ch moch




- ✗ Rhoi sbarion bwyd na gwastraff arlwyo o unrhyw fwyty neu gegin fasnachol (gan gynnwys ceginau figan) gan fod hynny'n anghyfreithlon.
- ✗ Rhoi gwastraff neu sbarion o geginau domestig.
- ✗ Rhoi cigoedd a physgod amrwd, wedi'u coginio'n rhannol neu'n gyfan gwbl (gan gynnwys pysgod cregyn).
- ✗ Rhoi bwyd cŵn a chathod.




- ✓ Roi bwyd moch masnachol pwrpasol fel ffordd ddiogel a hawdd o roi deiet cytbwys i'ch moch.
- ✓ Roi deunydd ffrwythau a llysiau sydd erioed wedi bod mewn cegin ac sydd heb ddod i gyswllt â deunydd o darddiad anifail.

## Rhowch fesurau bioddiogelwch da ar waith

- Defnyddiwch ddillad ac esgidiau pwrpasol ar eich cyfer chi ac unrhyw un sy'n dod i'ch safle.
- Rhwystrwch gerbydau neu gyfarpar rhag dod i'ch safle oni bai eu bod wedi'u glanhau a'u diheintio.
- Gwnewch yn siŵr fod y bobl sy'n gofalu am eich moch neu'n ymweld â nhw yn deall y perygl o ledaenu'r clefyd drwy ddod â chynhyrchion cig ac yn benodol, gig baedd gwyllt neu borc/cynhyrchion porc yn ôl o wledydd sydd wedi'u heffeithio. Mae masnachu porc o ardaloedd sydd wedi'u heffeithio yn y gwledydd hynny yn anghyfreithlon.
- Peidiwch â dod â chynhyrchion cig i'r ffarm er mwyn osgoi cyswllt damweiniol â moch.access to pigs.

Animal & Plant Health Agency

PVS PIG VETERINARY SOCIETY

Llywodraeth Cymru Welsh Government

BRITISH PIG ASSOCIATION BPA

npa

Scottish Government Riaghaltas na h-Alba gov.scot

BVA British Veterinary Association

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs www.daera-ni.gov.uk

AHDB

## A chofiwch

Mae’n rhaid i chi gofrestru eich moch efo’r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion. Ewch i **www.gov.uk/guidance/keeping-a-pet-pigor-micropig**

Gofynnwch am gyngor milfeddygol yn syth os yw eich moch yn anhwylus.

Gellir cael mwy o wybodaeth am glwy Affricanaidd y moch yn at **www.gov.uk/guidance/african-swine-fever**.